PLATFORM

For mental health and social change
Dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol

# Gwahoddiad i Seicolegwyr Cymunedol a/neu Glinigol Fynegi Diddordeb i ddarparu gwasanaethau ymgynghori ar gyfer y prosiect Gobaith a Gwellhad

**Wedi'i ariannu gan:**

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Mewn Partneriaeth gyda:

Save the Children
Achub y Plant

Groundswell
Out of homelessness

Homeless Network Scotland
we are all in

## Ynglŷn â Platfform

Ym Platfform mae gennym weledigaeth o 'les cynaliadwy i bawb'. Mae'n weledigaeth fawr mewn byd mawr a chymhleth, ond un yr ydym yn angerddol amdani.

Rydym yn gweithio ochr yn ochr â phobl sy'n wynebu heriau gyda'u hiechyd meddwl, a chyda chymunedau sydd eisiau creu ymdeimlad gwell o gysylltiad, perchnogaeth a lles yn y lleoedd y maent yn byw.

Rydym yn rhan o fudiad cynyddol o bobl a sefydliadau nad ydynt yn credu bod systemau 'cymorth' presennol cymdeithas yn addas at y diben. Rydym yn gwybod bod angen newid radical ar y systemau hyn er mwyn cyfrannu'n wirioneddol at ein gweledigaeth gyffredin o 'les cynaliadwy i bawb.'

Rydym yn profi ac yn datblygu dull gwaith sy'n seiliedig ar asedau, sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar wellhad, fel ymateb i'r dulliau sy'n seiliedig ar ddiffyg, profiadau trawmatig a dulliau sy'n aml yn niweidiol y mae llawer o bobl yn eu hwynebu wrth geisio cymorth.

**Mae gennym ddau ddatganiad diben craidd:**

1. Newid y naratif o amgylch iechyd meddwl, gan gynnig dewis arall i'r cynllun dominyddol o ddiagnosis seiciatrig. Mae'r dewis arall hwn yn canolbwyntio ar y rhan y mae trawma, profiadau bywyd ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn ei chael ar ein hiechyd meddwl a'n gallu i wella. Rydym yn mynd ar drywydd y newid hwn i helpu i ehangu canfyddiadau'r cyhoedd, ac i drawsnewid sut y gall pobl sy'n profi trallod meddyliol ofyn am gymorth a'i gael.

2. Gwneud i 'systemau cymorth' cymdeithas weithio'n well i bobl sy'n mynd drwy'r amseroedd anoddaf. Yng nghamau cyntaf ein strategaeth, byddwn yn canolbwyntio ar systemau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, tai, digartrefedd, a phobl ifanc.

Mae popeth a wnawn yn rhan o gyflawni ein diben a bydd popeth a wnewch chi yn cadw'r ddau ddatganiad diben hyn mewn cof.

## Ynglŷn â'r prosiect Gobaith a Gwellhad

Mae Gobaith a Gwellhad yn brosiect pum mlynedd a ariennir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Drwy'r prosiect, rydym yn edrych ar ffyrdd newydd o roi cymuned a pherthnasoedd wrth wraidd cymorth iechyd meddwl.

Yn Gobaith a Gwellhad, rydym yn cydnabod y gall unigolion a chymunedau wynebu trawma a bod ein hiechyd meddwl yn cael ei bennu i raddau helaeth gan ein hamgylchiadau cymdeithasol (WHO, 2014). Rydym yn gwybod hefyd fod perthnasoedd yn ganolog i iechyd meddwl da. Mae angen i ni fabwysiadu dull cyfannol os ydym am greu iechyd meddwl gwell, ac un sy'n cydnabod y berthynas ddofn rhwng iechyd meddwl a chyfiawnder cymdeithasol.

Mae hyn yn cynnwys y rhan sydd gan sefydliadau a systemau ehangach i'w chwarae wrth greu'r amodau i bawb ffynnu – gan gynnwys y rhai sy'n gweithio ynddynt.

Yn Gobaith a Gwellhad, rydym yn dod ag amrywiaeth o ddulliau a phrofiadau ynghyd i adeiladu ffyrdd newydd o ymateb i iechyd meddwl sy'n canolbwyntio ar gymunedau, trawma, perthnasoedd a chyfiawnder cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys:

- Damcaniaeth ac ymarfer o seicoleg, yn enwedig ynglŷn â'r rhan y mae trawma yn ei chwarae mewn cymunedau
- Canolbwyntio ar berthnasoedd a chysylltiad
- Dulliau datblygu cymunedol sy'n canolbwyntio ar gryfderau ac asedau
- Dull cyfannol sy'n gweld pobl mewn cyd-destun
- Dull ecolegol neu system gyfan, gan weithio ochr yn ochr â chymunedau a gwasanaethau
- Dull cyfiawnder cymdeithasol at iechyd meddwl sy'n cydnabod bod iechyd meddwl wedi'i gysylltu'n ddwfn ag anghyfiawnder ac anghydraddoldeb
- Ymrwymiad i wrando a chlywed llais a straeon pobl: mae cael eich gweld a'ch clywed yn ymyrraeth iechyd meddwl

Mae tri llinyn y prosiect yn dwyn ynghyd waith dwys o fewn ac ochr yn ochr â chymunedau, gyda chymorth tosturiol i wasanaethau a gweithwyr proffesiynol, a dulliau ymgyrchu creadigol:

**Cymunedau Gobaith:** grwpiau cymunedol hunangynhaliol ar draws tair ardal, gan ddefnyddio dull datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n ystyriol o drawma. Byddwn yn datblygu rhwydweithiau cymorth rhwng cymheiriaid, gan edrych ar sut i ddarparu ymyriadau sy'n ystyriol o drawma, wedi'u harwain gan y gymuned ac yn sensitif i ddiwylliant – gan ddefnyddio dull adrodd straeon ar gyfer newid systemau trwy ddull sy'n seiliedig ar le i wella lles cymunedol.

**Academi Gobaith:** rhwydweithiau dysgu, offer a chymorth i bobl a gweithwyr proffesiynol sy'n ceisio gwneud newid trwy gymunedau ymarfer sy'n seiliedig ar le, digwyddiadau cenedlaethol ac adnoddau ynghylch sut i greu newid trwy ddull perthynol a dull sy'n ystyriol o drawma – gan dynnu ar ddysgu gan y grwpiau cymunedol a'r gweithwyr proffesiynol, wedi'i gyd-greu ar gyfer dilysrwydd llais.

**Ymgyrchu dros Obaith:** sgyrsiau gobaith a gwellhad cenedlaethol – cyfres o ymarferion gwrando ac ymgyrchoedd dros newid gan ddefnyddio ein dull Prosiect Gwirionedd, i glywed profiadau uniongyrchol o weithio / byw mewn systemau a chymunedau sydd wedi'u trawmateiddio fel y gallwn ddadlau gyda phobl, llunwyr polisi ac arweinwyr ledled y DU dros newid.

Bydd Platfform yn gweithio ochr yn ochr â'n partneriaid prosiect craidd: Achub y Plant Cymru, Groundswell a Homeless Network Scotland. Bydd gennym safleoedd prosiect craidd yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Bydd ein gwaith yn canolbwyntio'n benodol ar dai a digartrefedd a chymorth i deuluoedd.

## Ynglŷn â'r rôl

**Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano mewn ymgynghorwyr Seicoleg:**

Rydym yn edrych i ddatblygu cronfa fach o Seicolegwyr Clinigol a Chymunedol sydd ag arbenigedd mewn seicoleg gymunedol i gynorthwyo gyda datblygu gwahanol weithgareddau o fewn y prosiect. Gall aelodau'r gronfa gael eu cyflogi i ymgymryd â darnau penodol o waith ar sail ymgynghoriaeth.

Rydym yn dymuno penodi pobl sydd wedi'u halinio'n ddwfn â gwerthoedd ein prosiect ac ymrwymiad Platfform i ddull perthynol ac sy'n ystyriol o drawma tuag at iechyd meddwl.

Rydym yn dymuno penodi pobl a all ddod â'u harbenigedd seicoleg gymunedol i weithgareddau gan gynnwys:

- Cynorthwyo tîm y prosiect i ddatblygu ymyriadau a dulliau mewn cymunedau, gan weithio ochr yn ochr ag aelodau'r gymuned, gan sicrhau eu bod wedi'u hategu gan theori ac ymarfer seicolegol cadarn;
- Cynorthwyo tîm y prosiect i ddatblygu a darparu gweithgareddau sy'n cynorthwyo gweithwyr proffesiynol a'r rhai sy'n gweithio/gwirfoddoli ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau;
- Datblygu deunyddiau hyfforddiant/canllawiau;
- Cefnogi myfyrio, llunio a nodi dulliau i fynd i'r afael â rhwystrau ac ymateb i gyfleoedd;
- Darparu canllawiau a chymorth wrth reoli risg;
- Darparu goruchwyliaeth glinigol.

Mae gweithgaredd y prosiect yn canolbwyntio ar dde-ddwyrain Cymru, Llundain a'r Alban ac rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan bobl sy'n gweithio yn yr ardaloedd hyn.

### Sgiliau a phrofiad

Rydym yn dymuno penodi Seicolegwyr Clinigol a/neu Gymunedol sy'n meddu ar:

- Ddealltwriaeth ddofn o theori ac ymarfer seicoleg gymunedol a'r gallu i fynegi hyn yn glir i'r rhai heb gefndir clinigol;
- Profiad sylweddol o weithio fel seicolegydd mewn cymunedau;
- Ymrwymiad i ddulliau iechyd meddwl sy'n ystyriol o drawma ac sy'n ymwneud â pherthynas;
- Dealltwriaeth o ddulliau systemig a phrofiad o'u cymhwyso mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys y tu allan i amgylchedd therapiwtig traddodiadol;
- Profiad o gynorthwyo pobl o'r tu allan i'r proffesiwn seicoleg i roi theori ar waith, gan gynnwys trwy ddulliau hyfforddi a datblygu cryfderau;

- Profiad o ddatblygu hyfforddiant a mathau eraill o gymorth datblygiad proffesiynol, yn enwedig i bobl sy'n gweithio mewn cymunedau a lleoliadau anghlinigol;
- Achrediad proffesiynol perthnasol a gwiriadau DBS;
- Profiad o weithio fel Seicolegydd cofrestredig HCPC ar Fand 7 neu uwch;
- Wedi cofrestru fel Ymarferydd Seicoleg gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC).

## Proses mynegi diddordeb

Os ydych chi'n bodloni'r meini prawf a amlinellir uchod ac yn awyddus i ymuno â'n cronfa o Seicolegwyr:

1. Anfonwch CV gyda datganiad yn amlinellu eich profiad perthnasol (yn ddelfrydol dim mwy nag un ochr o bapur A4) at helenwales@platform.org. Cofiwch gynnwys manylion eich argaeledd posibl e.e. amser sydd ar gael, unrhyw gyfyngiadau ar leoliad, unrhyw feysydd penodol o ddiddordeb.

2. Os yw eich sgiliau a'ch profiad yn cyd-fynd â'r hyn yr ydym yn chwilio amdano, byddwn yn trefnu sgwrs ar-lein i ddysgu mwy amdanoch chi ac i chi gael y cyfle i ddysgu amdanom ni.

3. I Seicolegwyr a wahoddir i ymuno â'r gronfa, os bydd darn o waith yn codi o fewn y prosiect yr ydym yn credu a allai fod yn addas i'ch sgiliau, profiad a'ch dewisiadau a nodwyd, byddwn yn cysylltu â chi i drafod ymhellach.

**Dyddiad cau:** Cyflwynwch eich diddordeb erbyn 31 Mawrth 2026. Ein nod fydd ymateb cyn pen chwe wythnos.

Sylwer na allwn gynnig unrhyw sicrwydd o waith i unrhyw aelodau'r gronfa a bydd unrhyw weithgaredd ymgynghori yn cael ei bennu gan anghenion y prosiect.

Byddwn yn cytuno ar gyfraddau unigol yn seiliedig ar brofiad, arbenigedd a math a graddfa'r gwaith sy'n cael ei gwblhau; rydym yn rhagweld y bydd cyfraddau dyddiol rhwng £350 a £500.